Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
—
Welsh Parliament
**External Affairs and Additional Legislation Committee**

Jeremy Miles AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

17 Chwefror 2021

Annwyl Jeremy

**Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit - gwaith dilynol**

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi cynnal ymchwiliad dilynol i'r newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit. Edrychodd y Pwyllgor ar y mater hwn gyntaf yn 2019. Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ynghylch newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit - y goblygiadau i Gymru, ar 8 Tachwedd 2019, a gwnaethoch chi roi ymateb y Llywodraeth ar 20 Rhagfyr 2019.

Yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2021, rhannodd panel o academyddion eu barn â'r Pwyllgor ynglŷn â'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd. Yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021, cyfarfu'r Pwyllgor â Llysgennad yr UE i'r DU, Ei Ardderchogrwydd João Vale de Almeida er mwyn cael dealltwriaeth o safbwynt yr UE ar hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru ar ôl Brexit. Rhannodd dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru a sefydliadau partner eu barn ynglŷn â'r sefyllfa mewn cyfres o grwpiau ffocws a gynhaliwyd gan swyddogion yn ystod Ionawr 2021, a rhoddwyd crynodeb ohono i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021.

Rydw i wedi cynnwys manylion y dystiolaeth a gasglwyd gennym yn Atodiad A, a chrynodeb o'r dystiolaeth a gawsom ac argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad B.

Ar yr un pryd, rwy'n ysgrifennu at Kevin Foster AS, y Gweinidog dros Ffiniau'r Dyfodol a Mewnfudo yn y Swyddfa Gartref i nodi'r camau yr hoffem weld Llywodraeth y DU yn eu cymryd mewn perthynas â'r gwaith hwn. Amgaeaf gopi o'r ohebiaeth honno, a byddaf hefyd yn rhoi copi o'r ohebiaeth hon iddo.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.wales
0300 200 6565

Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech ymateb erbyn dydd Mercher 10 Mawrth 2021 fel y gellir ei roi gerbron y Pwyllgor cyn diwedd y Senedd hon.

Yn gywir,

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad A

## Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit: sesiwn dystiolaeth gydag academyddion – 18 Ionawr 2021

- Marley Morris – Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus
- Dr Claire Thomas – Sefydliad Bevan
- Madeleine Sumption - Yr Arsyllfa Fudo, Prifysgol Rhydychen
- Yr Athro Jonathan Portes – Coleg y Brenin Llundain

Darllen y trawsgrifiad

Gwyliwch ar Senedd.tv

## Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit: Llysgennad yr UE i'r DU - 25 Ionawr 2021

- Ei Ardderchogrwydd João Vale de Almeida – Llysgennad yr UE i'r DU

Darllen y trawsgrifiad

Gwyliwch ar Senedd.tv

## Newidiadau i'r rhyddid i symud ar ôl Brexit: Ymgysylltu â Dinasyddion yr UE a sefydliadau partner – Ionawr 2021

Rhannodd yr holl gyfranogwyr neu'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli eu barn â'r Pwyllgor yn ystod grwpiau ffocws yng Nghaerdydd ym mis Medi 2019 a/neu yn y grŵp fforwm ar-lein, Loomio, cyn y grwpiau ffocws.

- Crynodeb Grwpiau Ffocws
- Tystiolaeth ysgrifenedig - Cyngor ar Bopeth Cymru
  - Papur briffio [Saesneg yn unig]
  - Astudiaethau achos [Saesneg yn unig]

# Atodiad B

## Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit – ymholiad dilynol

1. Yn dilyn diwedd cyfnod pontio'r UE, gwnaeth y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol waith dilynol yn edrych ar y newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit.

2. Yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2021, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gydag academyddion er mwyn cael diweddariad ar y materion a ystyriwyd yn ystod yr ymchwiliad gwreiddiol, gan gynnwys cynnydd Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE y DU, yng Nghymru, ac unrhyw faterion pellach sydd heb eu datrys.

3. Yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021, cyfarfu'r Pwyllgor â Llysgennad yr UE i'r DU er mwyn cael dealltwriaeth o safbwynt yr UE ar hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru ar ôl Brexit.

4. Ym mis Ionawr 2021 cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws gyda dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru a chynrychiolwyr sefydliadau sy'n rhan o'r Gwasanaeth Cynghori ar Fewnfudo i Ddinasyddion yr UE, i gasglu eu safbwyntiau ar roi'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar waith.

5. Casglwyd y dystiolaeth isod o'r ffynonellau hyn.

6. Mae rhai o'r pryderon a godwyd yn ymwneud â phroblemau hanesyddol neu barhaus y rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor amdanynt yn ystod yr ymchwiliad gwreiddiol. At hynny, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at bryderon newydd.

7. Mae'r papur hwn wedi'i gyfeirio at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd.

# Dinasyddion yr UE[1] yng Nghymru a'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

## Cefndir

**8.** O ran y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), lleisiwyd nifer o bryderon parhaus a rhai newydd gyda'r Pwyllgor. Roedd y pryderon parhaus yn cynnwys:

- y ffaith bod y Cynllun ar gael yn ddigidol yn unig;
- yr angen i gynnig cefnogaeth arbenigol i grwpiau bregus.

Roedd y pryderon newydd yn cynnwys

- effaith pandemig COVID-19;
- yr angen am ymgysylltu a chefnogaeth barhaus y tu hwnt i'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, sef 30 Mehefin 2021, gyda dinasyddion yr UE sydd â statws preswylydd cyn-sefydlog, y bydd angen iddynt gwblhau ail gais er mwyn aros yng Nghymru yn y dyfodol.

**9.** Rydym yn archwilio'r pryderon hyn yn fanylach o dan y penawdau isod.

## Cyfathrebu

**10.** Cawsom dystiolaeth yn awgrymu bod angen i gyfathrebu ynghylch agweddau ar y Cynllun gynyddu yn y cyfnod cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth, yn enwedig ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed neu sydd ar goll, a chyfathrebu ynghylch ystyr statws dinasyddion yr UE ar draws gwasanaethau cyhoeddus, cyflogwyr a landlordiaid. Dylai cyfathrebu ynghylch rheolau mewnfudo newydd y DU i'r cynulleidfaoedd hyn gynyddu hefyd.

**11.** Clywsom enghreifftiau gan gyfranogwyr grwpiau ffocws o negeseuon cadarnhaol a anfonwyd at ddinasyddion yr UE gan awdurdodau lleol a llywodraethau datganoledig:

[1] Yn y cyd-destun hwn, mae'r cyfeiriad at ddinasyddion yr UE yn cyfeirio at ddinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, a'r Swistir, ac eithrio dinasyddion Iwerddon, gan fod trefniadau ar wahân ar eu cyfer

> Newport Council created a leaflet and sent it to European citizens around St Nicholas Day, which thanked them for choosing Newport as their home. It was extremely powerful. – *Cyfranogwr grŵp ffocws 1*

> I always think about what Nicola Sturgeon did – she made it clear on the front page of their newspapers that EU citizens were welcome. I cried when I saw that and wish we had something similar here. I did however have a letter from the Welsh Government to say I would be able to vote in the Senedd elections, and I thought that was nice. – *Cyfwelai un-i-un 2*

## Pobl nad ydynt yn gwneud cais a'r rhai sy'n gwneud cais yn hwyr

**12.** Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor ar 25 Awst 2020, nododd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd y risg o gael sefyllfa "ymyl clogwyn" lle byddai statws preswylio pobl yn troi'n anghyfreithlon dros nos os nad ydynt wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE erbyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin 2021. Mae tystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor yn awgrymu bod angen eglurhad o'r 'seiliau rhesymol' a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU fel sail ar gyfer ceisiadau hwyr.

> Just on the question of what more the Government can do now to particularly help people who are in vulnerable situations. I think, first of all, there needs to be some clarity over what constitutes reasonable grounds if the deadline is missed in June. At the moment, I think it's not totally clear. – *Marley Morris – Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus*

**13.** Rydym yn croesawu'r gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi drwy Grŵp Cydgysylltu EUSS Cymru hyd yma, ac yn cydnabod ei chyfraniad at gyrraedd dinasyddion yr UE sydd mewn perygl o beidio â gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE cyn y dyddiad cau.

## Ymgysylltu a chefnogaeth barhaus i ddinasyddion yr UE sydd â statws preswylydd cyn-sefydlog

**14.** Lleisiwyd pryderon ynghylch yr angen am ymgysylltu a chefnogaeth barhaus gyda dinasyddion yr UE â statws preswylydd cyn-sefydlog (tua 43 y cant o gyfanswm y ceisiadau), yn enwedig yng ngoleuni pandemig COVID-19. Esboniodd Marley Morris o'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus fod

ansicrwydd ynghylch pa mor hawdd fydd y broses i bobl newid eu statws preswylydd cyn-sefydlog i statws preswylydd sefydlog drwy ail gais yn y dyfodol.

**15.** Esboniodd Mr Morris y gallai hyn olygu y gallai dinasyddion yr UE sydd â statws cyn-sefydlog wynebu heriau o ran cael budd-daliadau yn y misoedd i ddod, gan nad yw statws preswylydd cyn-sefydlog yn cynnig yr un hawliau â statws preswylydd sefydlog.

**16.** Lleisiodd y Llysgennad João Vale de Almeida bryderon tebyg yn ystod y dystiolaeth a roddodd i'r Pwyllgor ar 25 Ionawr 2021:

> We understand that many citizens who have obtained pre-settled status temporarily left the UK to assist their families, or simply to try and escape the worst-hit locations of the pandemic in the UK. Although pre-settled status remains valid for two years, when a citizen is outside the UK, if a stay is longer than six months in any 12-month period, this will interrupt the continued UK residence of pre-settled status holders, so there is a risk that they are put in an unfavourable situation. Such interruption, even if the pre-settled status holders return to the UK within the two-year limit, will basically make it impossible to later reapply for settled status before their pre-settled status expires. ... This is because settled status requires five years of continuous, uninterrupted residence, which these citizens will not be able to satisfy. – *y Llysgennad João Vale de Almeida*

**17.** Cydnabu'r Llysgennad fod cynllun y Swyddfa Gartref a ariennir gan grant yn ddefnyddiol o ran rhoi arian i sefydliadau partner, a galwodd am i'r cyllid gael ei ymestyn y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol hon hyd ddiwedd y cyfnod gras.

**18.** Amlygodd un o gyfranogwyr y grŵp ffocws yr angen am gefnogaeth barhaus gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru:

> A lot of our funding will run out after the grace period. We know there'll be many challenges from 1 July onwards; people who've not applied, people who can't access their status or people who have been granted pre-settled status and have up to five years to convert that into settled status. Our concern is that funding will stop on 1 July, but the work won't. We need greater certainty now, so that we can plan ahead – *Cyfranogwr grŵp ffocws 2*

## Natur ddigidol-yn-unig y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

**19.** Lleisiodd Claire Thomas o Sefydliad Bevan bryderon ynghylch natur ddigidol-yn-unig y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, a'r diffyg dogfennau ffisegol fel prawf o statws, gan gymharu'r sefyllfa â sgandal Windrush.

**20.** Ategwyd y pryder hwn gan un o'r cyfweleion un-i-un, a ddywedodd wrthym "*I can't help but think that 20 years from now, there'll be another Windrush type scenario, where we'll be told to go home.*"

**21.** Byddwn yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Ffiniau'r Dyfodol a Mewnfudo yn y Swyddfa Gartref i dynnu ei sylw at y mater hwn.

## Grwpiau sy'n agored i niwed

**22.** Codwyd yr angen parhaus i roi sylw arbennig i grwpiau sy'n agored i niwed fel mater trawsbynciol drwy gydol yr ymchwiliad, gan gynnwys materion sy'n codi o ganlyniad i roi'r gorau i gyfathrebu a chefnogaeth wyneb yn wyneb yng nghyd-destun y pandemig.

**23.** Wrth ystyried anghenion grwpiau sy'n agored i niwed, tynnodd Marley Morris o'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus sylw at anghenion pobl sy'n dioddef caethwasiaeth fodern, plant mewn gofal, pobl sy'n ddigartref. Dywedodd y dylid cael synnwyr cliriach o bwy fyddai'n gymwys i allu gwneud cais ar ôl y dyddiad cau.

**24.** Cyfeiriodd un o gyfranogwyd y grŵp ffocws at anawsterau a wynebir gan grwpiau sy'n agored i niwed:

> When you consider those involved with social services, they're a hugely vulnerable and marginalised group that often require face-to-face support in normal circumstances. It's not just about digital accessibility, but issues of capacity to make the application. – *Cyfranogwr 3 yn y grŵp ffocws*

## System fewnfudo newydd y DU

**25.** Gan fod system fewnfudo newydd y DU wedi cael ei chyflwyno ers i'n hadroddiad gwreiddiol gael ei chyhoeddi, gwnaethom gymryd tystiolaeth er mwyn ystyried gweithredu'r system newydd o safbwynt Cymru.

**26.** Clywsom dystiolaeth gan yr Athro Jonathan Portes fod y system yn welliant i Gymru ar y system a gynigiwyd yn wreiddiol o dan Lywodraeth Theresa May, ac a ystyriwyd gennym yn ystod ein hymchwiliad gwreiddiol.

**27.** Fodd bynnag, aeth yr Athro Portes ymlaen i nodi bod risgiau'n parhau, gan gynnwys mewn perthynas â'r sector gofal cymdeithasol oherwydd ei ddibyniaeth ar lafur ymfudwyr o'r UE, a sectorau sy'n tueddu i ddenu cyflogau islaw'r trothwy cyflog newydd, is, sef £25,600, fel gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd.

**28.** Dywedodd Marley Morris wrthym y gallai'r gostyngiad yn y trothwy cyflog helpu rhai sectorau i addasu, ond mae'n debyg mai'r trothwy sgiliau yw'r prif beth sy'n ei gwneud hi'n anodd i gyflogwyr recriwtio o'r UE yn y dyfodol.

Aeth Mr Morris ymlaen i dynnu sylw at y costau ychwanegol y bydd cyflogwyr yn eu hwynebu wrth recriwtio o dramor, gan gynnwys y tâl sgiliau mewnfudo a ffioedd trwyddedu ychwanegol.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Oherwydd y pryderon parhaus ynghylch y mater hwn, rydym yn ailadrodd yr argymhelliad o'n hadroddiad gwreiddiol: y dylai Llywodraeth Cymru ddatgan neges arall o gefnogaeth i ddinasyddion yr UE yng Nghymru. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau â'i hymdrechion i gyrraedd dinasyddion yr UE a sefydliadau partner i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a'r angen i wneud cais cyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin 2021.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn estyn ei chefnogaeth, naill ai drwy'r Grŵp Cydgysylltu EUSS Cymru presennol neu drwy ddulliau eraill, y tu hwnt i'r dyddiad cau ar 30 Mehefin 2021, yn benodol ar gyfer pobl y mae eu hamgylchiadau wedi newid oherwydd pandemig COVID-19 a grwpiau sy'n agored i niwed a allai fod wedi colli'r dyddiad cau oherwydd anawsterau yn eu hamgylchiadau.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i helpu dinasyddion yr UE i fynd drwy'r broses o wneud cais yn ddigidol yn absenoldeb unrhyw gefnogaeth wyneb yn wyneb, a'i bod yn ystyried anghenion grwpiau sy'n agored i niwed wrth wneud hynny.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i ddefnyddio’r sianeli presennol i roi cefnogaeth i gyflogwyr Cymru i'w galluogi i ddeall y system fewnfudo newydd, gan gynnwys y fisa gofal iechyd newydd, y tâl sgiliau mewnfudo a'r ffi drwydded ychwanegol.